

## Agenda

---

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus
Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Iau 23 Ionawr 2025
Amser y cyfarfod:	9:00 – 12:40

---

### Amser Eitem

---

#### Materion Rhagarweiniol

---

**9:00** **Eitem 1. Dechrau'r Cyfarfod**

(5 munud)

- Croeso
- Datganiad Buddiannau
- Egluro trefn y cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiannau

---

**9:05** **Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu**

(5 munud)

- 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 21 Tachwedd  
2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu Cyhoeddus

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r Log Camau Gweithredu

---

#### Cefndir

---

**9:10** **Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd**

(10 munud)

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd gan gynnwys disgrifiad byr o'r hyn a drafodwyd yng nghyfarfod preifat y Bwrdd

---

**9:20** **Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr**

(10 munud)

---

---

Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro

**Crynodeb: NODI'r sefyllfa bresennol a diweddarau'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol**

**Cyfeirnod papur: 25-01-B01**

---

## Llywodraethu, Risg a Sicrwydd

---

**9:30**

**(20 munud)**

### **Eitem 5. Adroddiadau Diweddarau y Pwyllgorau a'r Fforymau**

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg – 13 Rhagfyr  
**Cyf Papur: 25-01-B02**
- Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth
- Pwyllgor Cyllid – 5 Rhagfyr ac 8 Ionawr  
**Cyfeirnod papur: 25-01-B03**
- Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC)  
**Cyfeirnod papur: 25-01-B04**
- Pwyllgor Ystad Tir
- Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid – 10 Rhagfyr  
**Cyfeirnod papur: 25-01-B05**
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig
- Fforwm Rheoli Tir Cymru  
**Cyfeirnod papur: 25-01-B06**
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru  
**Cyfeirnod papur: 25-01-B07**
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru  
**Cyfeirnod papur: 25-01-B08**
- Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru  
**Cyfeirnod papur: 25-01-B09**
- Grŵp Galluogi'r Sector Amgylcheddol  
**Cyfeirnod papur: 25-01-B10**

**Crynodeb: NODI'r diweddariadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd a Fforymau CNC, mewnol ac allanol, a chyfarfodydd a gynhaliwyd**

---

**9:50**

**(10 munud)**

### **Eitem 6. Rheoli Busnes Bwrdd**

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

**Pynciau i'w trafod:**

**a) Eitemau'r Cadeirydd**

Arweinydd: Syr David Henshaw

---

---

**b) Eitemau Aelodau'r Bwrdd**

Arweinydd: Aelodau'r Bwrdd:

**Crynodeb: Trafod unrhyw faterion sy'n codi**

**c) Edrych i'r dyfodol**

Arweinydd: Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac  
Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Crynodeb: Adolygu'r 'Edrych i'r dyfodol' y Bwrdd**

**Cyfeirnod papur: 25-01-B11**

---

## Cyflawni ein Cynllun

---

**10:00  
(20 munud)**

**Eitem 7. Adroddiad Perfformiad Cyllid**

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a  
Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

**Crynodeb: CYMERADWYO'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf**

**Cyfeirnod papur: 25-01-B12**

---

**10:20  
(15 munud)**

**Eitem 8. Cyllideb Ardaloedd Draenio Mewnol**

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a  
Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

**Crynodeb: CYMERADWYO'r Gyllideb Ardaloedd Draenio Mewnol**

**Cyfeirnod papur: 25-01-B13**

---

**10:35  
(20 munud)**

**Egwyl**

---

## Cynllunio strategol

---

**10:55  
(90 munud)**

**Eitem 9. NRW2030 & Diweddariad Trawsnewid**

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a  
Gwasanaethau Corfforaethol

---

---

Cyflwynydd: Vic Rose-Piper, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Busnes  
ac Adfywio, Matt Harrington, Pennaeth Dros Dro DdAT

**Crynodeb: Y Bwrdd i drafod cyfeiriad CNC yn y dyfodol**

---

**12:25  
(10 munud)**

**Eitem 10. Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn**

Noddwr: Syr David Henshaw, Cadeirydd

**Crynodeb: Adolygiad o'r cyfarfod**

---

**12:35  
(5 munud)**

**Eitem 11. UNRHYW FATER ARALL**

---

**12:40**      **Diwedd y cyfarfod**

---

**12:40**      **Sesiwn Holi ac Ateb i'r Cyhoedd**  
**(20 munud)**

---

**13:00**      **Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus**

---

# Cofnodion DRAFFT heb eu cadarnhau

<b>Teitl y cyfarfod:</b>	<b>Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus</b>
<b>Lleoliad:</b>	Ystafell Fwrdd, CP2 a Microsoft Teams
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	21 Tachwedd 2024
<b>Aelodau'r Bwrdd yn bresennol:</b>	Syr David Henshaw Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro Geraint Davies Dr Pete Fox Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Kath Palmer Helen Pittaway Dr Rosie Plummer
<b>Aelodau o'r Tîm Gweithredol yn bresennol:</b>	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol  Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Dros Dro  Rhian Jardine, Pennaeth Morol a DPAS (yn dirprwyo ar ran Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau) Vic Rose-Piper, Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Busnes ac Adfywio (yn dirprwyo ar ran y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)
<b>Mynychwyr yn bresennol:</b>	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (Pob eitem) Rob Bell, Pennaeth Cyllid - eitem 6 Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch - eitem 7 Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) – eitem 8

---

**Arsylwyr Cyhoeddus yn bresennol:**

Kim Waters

---

**Ysgrifenyddiaeth:**

Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd  
Sian Johnston, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

---

**Datganiadau o Ddiddordeb:**

- Dr Rosie Plummer - Aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - rhyngweithiadau eang gan gynnwys Withyhedge gyda CNC gan gynnwys dynodiad tirwedd Parc Cenedlaethol a pharthau gwarchod gan gynnwys afonydd ACA, parthau morol, derbynnydd grant amrywiol a chydweithredwr
- Yr Athro Steve Ormerod – Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Wyddoniaeth ac Aelod o'r Bwrdd Marchnadoedd Amgylcheddol newydd; Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod; Is-lywydd RSPB
- Geraint Davies – Mentor gyda Cyswllt Ffermio; Cysylltai Canolfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran
- Yr Athro Rhys Jones – rhan o brosiect ymchwil wedi'i ariannu gyda Phrifysgol Coventry a fydd yn archwilio datblygiad a gweithrediad cynnar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

---

## Eitem 1. Dechrau'r Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod, croesawodd bawb, ac eglurodd drefn y cyfarfod. Nodwyd datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau fel y'u gwelir uchod.

## Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu

### Eitem 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod 26 Medi

2. Cafodd cofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 26 Medi eu hadolygu a'u cytuno.

### Eitem 2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu

3. Cafodd y Log Camau Gweithredu ei adolygu a'i nodi.

## Eitem 3. Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd

4. Nododd y Cadeirydd ei fod wedi llofnodi'r Siarter ar gyfer Teuluoedd mewn Profedigaeth drwy Drasiedi Gyhoeddus a diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau am ei waith ar hyn.

## Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

5. Rhoddodd y Prif Weithredwr Dros Dro y wybodaeth ddiweddaraf am eitemau yn ychwanegol at yr Adroddiad ysgrifenedig. Roedd tîm yn canolbwyntio ar y Bil Mesurau Arbennig Dŵr ac yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru (LIC) ar hyn. Roedd CNC yn aros am benderfyniad terfynol gan Ofwat ynghylch yr Adolygiad Prisiau (PR)24, a oedd i fod i gyrraedd ar 19 Rhagfyr 2024. Byddai'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn. Pe bai'r penderfyniad terfynol yn unol â'r Cynllun Busnes terfynol a gyflwynwyd gan Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) byddai hyn yn dechrau ym mis Ebrill 2025 hyd at 2030. Byddai'r Cadeirydd a swyddogion CNC yn mynychu cyfarfod Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Dŵr Cymru ym mis Rhagfyr i graffu ar eu camau gweithredu i wella eu sgôr perfformiad dwy seren.
6. Byddai'r cyfnod ymgynghori ar y cynigion ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn dod i ben ar 16 Rhagfyr. Diolchwyd i'r cyhoedd a oedd wedi cymryd rhan hyd yn hyn. Cafwyd presenoldeb da iawn yn y digwyddiadau ymgynghori, ac amlinellwyd gweddill y sesiynau. Canmolwyd y tîm am eu gwaith ar y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Pe bai digon o dystiolaeth i gyflwyno gorchymyn dynodi, byddai'n cael ei roi i Lywodraeth Cymru a fyddai wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol.
7. Roedd y Prif Weithredwr Dros Dro wedi cyfarfod â nifer o randdeiliaid gan gynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Byddai cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid eraill megis Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC) yn cael eu cynnal yn y Ffair Aeaf ar 25 Tachwedd. Nododd Dr Pete Fox y dylid canmol BASC am eu gwaith yn hyrwyddo ergydion diwenwyn ar gyfer bwledi.
8. Roedd yr Achos dros Newid yn parhau gyda'r broses baru, a'r cam nesaf i staff fyddai datganiadau o ddiddordeb. Roedd rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys i drafod y gwasanaethau newydd a sut roedd CNC yn rheoli'r cyfnod pontio.
9. Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd bod CNC wedi bod yn rhan o Rwydwaith Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd ers 2013 a'i fod yn rhwydwaith pwysig i ddysgu gan eraill yn ogystal â rhannu'r hyn a ddysgwyd. Cafwyd cyfle i ddysgu ar y cyd gyda gwledydd eraill hefyd, gan gynnwys rhannu'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a oedd yn unigryw i Gymru.

## Eitem 5. Adroddiadau Diweddarau y Pwyllgorau a'r Fforymau

10. Nododd Kath Palmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (ARAC) fod ARAC wedi craffu ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon terfynol (ARA) a'u cymeradwyo yn eu cyfarfod ar 7 Hydref, a'u bod wedi cael eu cyflwyno yn y Senedd ers hynny.
11. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth (EAC) ddiweddariad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref. Roedd y drafodaeth wedi cynnwys tystiolaeth o'r amgylchedd morol, o ran ceisio ei adfer a'i warchod ond hefyd caniatáu datblygiad lle bo'n briodol. Trafodwyd egwyddorion buddsoddi cynaliadwy hefyd, yn ogystal â'r adroddiad SoNaRR Interim a'r Strategaeth Dystiolaeth ddrafft. Gofynnodd y Bwrdd am weld y Strategaeth.

## **CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Tystiolaeth a Gwybodaeth i ddarparu'r Strategaeth Dystiolaeth ddrafft i'r Bwrdd.**

12. Nododd Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (FC) na chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.
13. Rhoddodd Dr Pete Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref. Nodwyd cynnwys y papur gan gynnwys adolygiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) o seilwaith llifogydd, yr adolygiad o'r Rhaglen Gyfalaf ac y byddai trafodaeth yn y dyfodol ar yr Ardaloedd Draenio Mewnol (IDDs). Nododd Geraint Davies fod y cyhoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan yr Ardaloedd Draenio Mewnol yn Nhan Lan yn anhapus gyda'r dull gweithredu ac nad oedd llwybr apêl. Byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach gan FMRC.
14. Holwyd ynghylch y cysylltiad rhwng CNC a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW), ac eglurwyd bod y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau wedi bwydo i mewn i'w hadolygiad. Roedd yr Athro Calvin Jones wedi mynychu lansiad canfyddiadau NICW a byddai eu darn nesaf o waith yn trafod addasu hinsawdd.
15. Rhoddodd yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystâd Tir (LEC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref. Derbyniwyd y papur, ac roedd ymweliad safle wedi'i gynnal gyda Trydan Gwyrdd Cymru ar fferm wynt Pen y Cymoedd, sydd wedi'i lleoli ger mawndir, lle'r oedd mater newydd wedi codi gan fod llawer o lygod pengrwn y dŵr yn bresennol yr ardal. Holwyd ynghylch y tensiwn rhwng datblygu ffermydd gwynt a mawn, a nodwyd bod Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ar fin gwneud penderfyniadau ar dri datblygiad mawr ger mawn. Roedd un penderfyniad wedi'i wneud a byddai gwybodaeth bellach yn cael ei dosbarthu i aelodau'r Bwrdd. Byddai adroddiad cynhwysfawr ar blannu cydadferol yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd maes o law.

## **CAM GWEITHREDU: Pennaeth y Gwasanaethau Morol a'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu (DPAS) i ddarparu gwybodaeth ynghylch penderfyniad datblygu ynni adnewyddadwy a wnaed gan PEDW.**

16. Nododd Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC) na chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.
17. Rhoddodd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig (PrAC), ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref. Rhoddwyd eglurder pellach ar Safle, esboniwyd mai cronfa ddata fewnol ar gyfer CNC oedd hon. Gofynnwyd a fyddai cyllid ar gael ar gyfer cytundebau rheoli tir newydd, fodd bynnag, nodwyd y byddai'r cyllid a gyhoeddwyd ar gyfer parhau gyda chytundebau rheoli tir presennol. Byddai cyllid ar gyfer rhai newydd yn cael ei drafod mewn trafodaethau Cyllidebol gyda Llywodraeth Cymru (LIC). Holodd aelodau'r Bwrdd sut y gallai CNC wneud yn well o ran defnyddio technoleg fodern i leihau'r baich ar staff sy'n monitro cytundebau rheoli tir, a byddai PrAC yn trafod hyn ymhellach.



18. Rhoddodd yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF), ddiweddiad i'r Bwrdd ar y cyfarfod diweddar a derbyniwyd y papur. Byddai'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth (RAC) yn cael ei wahodd i gyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru. Y gobaith oedd y byddai Dr Susannah Bolton, y cadeirydd allanol annibynnol a fu'n goruchwyllo'r adolygiad statudol o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, yn adrodd yn ôl i Fforwm Rheoli Tir Cymru yn dilyn yr adolygiad hwn. Roedd y data wedi'i gasglu ar gyfer yr adolygiad o fforymau CNC, a byddai hwn yn dychwelyd i WLMF ar ôl dadansoddi'r data.
19. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF) a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF) y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd a nododd na fu cyfarfod o'r WFF ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Roedd WWMF wedi cyfarfod, ac roeddent wedi cael cyflwyniadau gan Hafren Dyfrdwy a Dŵr Cymru ynghylch y bwriad rhag-benderfynu ar gyfer Adolygiad o Brisiau (PR)24 a sut yr addaswyd y rhaglenni drwy OfWat. Roedd cyflwyniad hefyd wedi'i roi ar fwyngloddiau metel ac amlygwyd bod tua 700km o afonydd Cymru wedi'u heffeithio gan ddraeniad o fwyngloddiau metel. Roedd nifer dda wedi mynychu cyfarfod a gynullwyd gan yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd, lle'r oedd diddordeb a phryder eang ynghylch cyflwr yr amgylchedd dŵr.
20. Roedd Dr Pete Fox wedi mynychu Seminar Adfer Afonydd CNC, roedd llawer o sefydliadau allanol wedi mynychu ac roedd yn amlwg bod momentwm y tu ôl i adfer afonydd. Cynhaliwyd y digwyddiad i drafod gwaith adfer ar raddfa fawr, a byddai cinio'n cael ei gynnal lle byddai gwobr Adfer Afonydd yn cael ei chyflwyno.
21. Rhoddodd Geraint Davies, Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (FfCC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod diweddaraf - roedd y trafodaethau'n cynnwys y Parciau Cenedlaethol, seilwaith, a thrafnidiaeth gynaliadwy yng Nghymru.
22. Nododd Lesley Jones, Cadeirydd Grŵp Galluogi Sector yr Amgylchedd (EESG) y byddai'r grŵp yn adolygu'r cylch gorchwyl (ToR) i sicrhau bod y Grŵp yn canolbwyntio ar weithredu fel nad fforwm drafod yn unig fyddai hwn. Roedd eu cyfarfod diweddaraf wedi cynnwys trafodaeth ar Brosiect Arddangosiadol Teifi a chyllid hirdymor gan y Trysorlys.

## Eitem 6. Adroddiad ar Berfformiad Cyllid

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

23. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (F&CS) yr eitem a rhoddodd y Pennaeth Cyllid drosolwg o'r papur. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn adolygu'r Adroddiad yn fanylach yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr. Roedd y gyllideb gyffredinol wedi cynyddu i £272.9m. Roedd y rhagolwg incwm pren wedi cynyddu, felly nid oedd angen i Llyw Cym lenwi am hyn mwyach. Roedd yr incwm Masnachol wedi cynyddu a chafwyd cadarnhad y byddai Llyw Cym yn cyfrannu £1.5m ychwanegol tuag at y dyfarniad cyflog. Bu cynnydd hefyd mewn incwm taliadau.
24. Roedd angen ail-ragolygu gwariant ar Stiwardiaeth Tir a Hyfforddiant. Byddai ymagwedd fwy darbodus yn cael ei mabwysiadu tuag at or-raglennu, er mwyn osgoi'r risg o danwariant. Roedd yr arbedion cyflog ar y trywydd cywir i gael eu cyflawni, ac

roedd cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer diswyddiadau posibl. Fodd bynnag, ni fyddai'r ffigwr ar gyfer diswyddiadau yn hysbys tan fis Chwefror yn unol ag amserlen yr Achos dros Newid. Roedd £1.3m ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer cyfraniadau pensiwn ar gyfer Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS). Byddai cyllid pellach yn cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cronfeydd.

25. Amlygwyd rhwymedigaethau parhaus gan gynnwys IR35 aThy Cambria. Ceisiwyd cynrychiolaeth gyfreithiol newydd ar gyferThy Cambria, fodd bynnag roedd risg na fyddai modd datrys y sefyllfa tan y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd yr holl ganlyniadau posibl yn cael eu hystyried. Byddai unrhyw arbedion a wneir yn y gyllideb eleni yn cael eu talu'n ôl i Llyw Cym i'w talu ar gyfrif ar gyfer IR35. Roedd pwysau hefyd ar rai costau llifogydd a thrydan ac roedd hyn yn cael ei adolygu. Byddai'r risgiau'n cael eu hystyried ymhellach gan y Pwyllgor Cyllid.
26. Holwyd am rwymedigaethau dyraniad y cynllun pensiwn. Eglurwyd bod prisiad yn cael ei ddarparu bob tair blynedd o'r ffioedd cyfraniadau pensiwn a ddylai ddod ag ymrwymadau'r dyfodol i lawr. Nodwyd bod y gwarged pensiwn mewn sefyllfa dda ar hyn o bryd.
27. Cadarnhawyd bod CNC ar y trywydd iawn gyda'r rhagolwg blwyddyn lawn, ond roedd yn ymddangos yn sicr na fyddai'r dyraniad llawn o ddŵr a chyfalaf yn cael ei ddefnyddio. Byddai hyn yn cael ei ystyried dros y mis nesaf gyda'r Tîm Gweithredol (ET). Eglurwyd y cronfeydd wrth gefn, bod hyn yn berthnasol i falansau taliadau yn unig gan fod gan CNC y gallu i'w cario ymlaen o flwyddyn i flwyddyn.

**CYMERADWYWYD: Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf, o £269.0m i £272.9m. Nododd y Bwrdd y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Medi 2024.**

## **Eitem 7. Adroddiad Chwarter 2 Lles, Iechyd a Diogelwch**

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch

28. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygiad Corfforaethol (CS&D) yr eitem. Darparodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch uchafbwyntiau allweddol o'r papur. Roedd tri Adolygiad o Ddigwyddiadau Difrifol (SIRs) wedi'u comisiynu; roedd 5 SIR wedi'u gohirio oherwydd eu bod yn aros am gyfarwyddiadau pellach gan eraill megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE); roedd tri SIR wedi'u cwblhau; roedd wyth SIR wedi'u cau. Y rheswm am y nifer uchel o'r SIRs a gaewyd oedd nad oedd angen unrhyw gamau pellach gan CNC fel parti â diddordeb ar ôl i'r achosion fod gerbron y Crwner.
29. Roedd un achos Rheoliadau Adrodd am Glefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR), sef aelod o staff a gafodd lithriad/baglu ar dir anwastad - gyda'r anafiadau'n ddifrifol. Roedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i hysbysu ac roedd yr aelod o staff yn gwella ac roedd disgwyl iddo ddychwelyd i'r gwaith yn fuan. Roedd nifer o fentrau lles wedi'u lansio gan gynnwys y Rhaglen Cymorth i Weithwyr newydd, Vivup, a sesiynau ymwybyddiaeth straen i reolwyr. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol

CS&D fod Archwiliad Mewnol wedi'i gwblhau ar y broses SIR a oedd wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno i ARAC ym mis Rhagfyr.

30. Gofynnodd y Bwrdd am gynllun gwaith manwl ar gyfer Gwlad y Sgydau o ystyried nifer y digwyddiadau a marwolaethau a ddigwyddodd yno. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno i CSP ym mis Mawrth, a gellid ei gyflwyno i'r Bwrdd yn dilyn hynny. Nodwyd mai dim ond hyn a hyn y gallai'r sefydliad ei wneud, a holwyd sut y gallai CNC helpu crwneriaid i ystyried y darlun ehangach ar gyfer y maes hwn. Bu'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr yn cysylltu â chrwneriaid, fodd bynnag pwysleisiwyd nad oedd y Grŵp hwn yn dylanwadu ar unrhyw ymchwiliadau.

31. Holwyd ynghylch y nifer a oedd yn dilyn cyrsiau ar y System Rheoli Dysgu (LMS), ac awgrymwyd bod staff yn gwerthfawrogi ac yn dod yn gyfarwydd â'r system newydd. Byddai papur yn cael ei gyflwyno i ET ym mis Ionawr gyda rhestr hyfforddi orfodol ddiwygiedig newydd a phryd y byddai angen hyfforddiant gloywi. Awgrymwyd hefyd y byddai'r LMS yn ddefnyddiol ar gyfer datblygiad y Bwrdd.

**CYMERADWYWYD: Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Lles, Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 2 2024-25.**

## **Eitem 8. Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Chwarter 2**

Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro

Mynychwr: Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a PMO, Eitem 7

32. Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr Adroddiadau Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes a Perfformiad Mewnol Chwarter 2. Eglurwyd yr Amcanion Llesiant ac roedd y broses ar gyfer adrodd ar y rhain yn cael ei datblygu a byddai'n cael ei gwella. Cyflwynwyd y sefyllfa a adroddwyd yn Ch2 a'r sefyllfa ddiwedd y flwyddyn a ragwelir. Roedd y rhewi recriwtio yn cael effaith ar gyflenwi ar draws y sefydliad ac adlewyrchwyd hyn yn yr Adroddiad. Er mai detholiad o ystadegau oedd hwn, byddai tueddiadau tebyg yn ymddangos ar draws yr holl weithgareddau. Roedd mwy o Ambr a Choch - a diffyg adnoddau oedd y rheswm. Y gobaith oedd y byddai perfformiad yn gwella ond roedd y rhain yn sgorau realistig yn yr Adroddiad. Roedd metrigau amlflwyddyn yn cael eu hystyried er mwyn gallu dadansoddi tueddiadau.

33. Rhoddwyd diweddariad ar WBO3. Cafwyd cynnydd da ar y cyfan ond y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â her a chynghor i gwmnïau dŵr, a gosod yr uchelgais ar gyfer gwella ansawdd dŵr oedd: Coch. Roedd y rhewi recriwtio yn effeithio ar y mesur her a chynghor, yn ogystal â CNC yn ymgymryd â gwaith newydd gyda'r Bil Mesurau Arbennig Dŵr. Roedd gwaith wedi'i flaenoriaethu i ymchwilio i nodweddion dŵr mewn dyfroedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) dynodedig a methiant i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) a oedd yn effeithio ar yr ail fesur Coch. Roedd diffyg adnoddau hefyd yn effeithio ar gyflymder y gwaith. Byddai archwiliad dwfn nesaf WBO3 yn canolbwyntio ar wastraff. Nodwyd y risgiau ynghylch y rhewi recriwtio, a gorau po gyntaf y gellid codi'r rhewiad hwnnw.

34. Rhoddwyd diweddariad ar WBO2 gyda phum mesur yn adrodd Ambr. Roedd gwaith wedi'i oedi ar y Rhaglen Mawndir Cenedlaethol a rheoli a chynnal asedau llifogydd, ond byddai codi'r rhewi recriwtio yn helpu gyda hyn. Er bod y System Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd wedi bod yn llwyddiannus, roedd problemau gyda'r Prosiect Telemetreg a fyddai'n dychwelyd i ET. Roedd y galw yn cynyddu am y prosesau cyn-cais yn ymwneud â chynllunio statudol a cheisiadau am drwyddedau i hwyluso datgarboneiddio diwydiannol a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr tirlenwi, ond roedd adnoddau'n gyfyngedig ac roedd y Dirprwy Brif Weinidog wedi cael gwybod am hyn. Roedd memorandwm cyd-ddealltwriaeth (MOU) a chontract wedi'u llofnodi gyda Cymru Sero Net, i sicrhau cyllid i alluogi CNC i wneud rhai gweithgareddau. Roedd cynnydd da gyda'r Cynllun Sero Net, fodd bynnag bu arafu yn yr hyfforddiant llythrennedd.
35. Eglurwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, roedd partneriaid yn dod at ei gilydd a byddai cyllid ar gyfer gwaith trwyddedu CNC. Er bod y gwaith cyn-cais wedi'i gynllunio, nid oedd wedi'i brofi eto. Croesawyd y buddsoddiad, gan fod hwn wedi'i drafod yn flaenorol gan y Bwrdd.
36. Rhoddwyd diweddariad ar WBO1. Roedd adnoddau'n gyfyngedig i allu gwerthuso Rhaglen Rhwydweithiau Natur CNC, ond roedd angen cyfeiriad hefyd gan Lywodraeth Cymru ar sut roeddent am i CNC weithio ar y gwerthusiad hwn. Roedd yn annhebygol y byddai hyn yn cael ei gwblhau tan fis Chwefror 2025, fodd bynnag anogodd y Bwrdd y tîm i gwblhau hyn cyn hynny. Coch oedd y mesur ar gyfuno tystiolaeth i nodi blaenoriaethau ar gyfer hysbysu ac ailhysbysu cyfraniad safleoedd at y targed o 30 wrth 30 - a hynny oherwydd swyddi gwag. Byddai'r llwybr i Wyrdd ar gyfer hyn yn dod o gyfeiriad PrAC o ran sut i symud ymlaen.
37. Roedd y camau ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn annhebygol o fod yn gyflawnadwy erbyn diwedd y flwyddyn - byddai hyn yn dibynnu ar lenwi swyddi gwag a Llyw Cym yn egluro rôl CNC. Cydnabuwyd bod llawer o bwysau ar Gyfoeth Naturiol Cymru gyda Llyw Cym yn gofyn am waith yn gyflym gyda'r SFS.
38. Amlygwyd y risg na fyddai sefydliadau eraill yn gwneud yr hyn a allent er budd natur a'r hyn na allai CNC ei reoli - ac roedd angen i CNC ystyried goblygiadau hyn, a sut y gallent ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn ystod trafodaethau'r Cynllun Corfforaethol, cytunwyd bod angen i CNC ddechrau dwyn eraill i gyfrif. Mewn ymateb i ymholiad, byddai'r naratif yn nodi pan a phryd byddai blaenoriaethau'n newid drwy gydol y flwyddyn ond ni fyddai'r mesurau y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cynllun Busnes ar ddechrau'r flwyddyn yn newid.
39. Roedd grŵp wedi'i ffurfio i drafod mesurau'r WBO yn gyfan gwbl - roedd hyn yn rhoi'r cyfle i CNC a Llyw Cym sefydlu eu safbwynt ynghylch y gwaith sydd ei angen ar y mesurau, beth oedd yn cael ei weithio arno, a beth y dylid ei flaenoriaethu.
40. Diolchodd y Bwrdd i'r tîm am y gonestrwydd a'r realaeth gyda'r mesurau - a dylid gwneud staff yn ymwybodol efallai na fydd rhai mesurau'n cael eu cyflawni. Diolchwyd i Bronia Bendall, a oedd wedi gadael CNC yn ddiweddar.

41. Roedd gan yr Adroddiad Perfformiad Mewnol chwe mesur Gwyrdd, un mesur Ambr a dim Coch. Byddai ffocws parhaus ar gysylltu amcanion y Cynllun Busnes ac amcanion Sgwrs staff, a sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi ar y system.

**CYMERADWYFYD: Cymeradwyodd y Bwrdd y Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes ac Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 Mewnol.**

## Eitem 9. Unrhyw fater arall

42. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

## Diwedd y Cyfarfod

### Sesiwn Holi ac Ateb i'r Cyhoedd

43. Cyflwynodd y Cadeirydd y sesiwn Holi ac Ateb cyhoeddus. Gan fod nifer o gwestiynau wedi dod i law ynghylch y canolfannau ymwelwyr, darparodd y Cadeirydd ddatganiad yn mynd i'r afael â'r rhain. Bydd y ddarpariaeth manwerthu ac arlwyio mewn tair canolfan ymwelwyr a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau tan 31 Mawrth 2025, ac yna'n cau. Ar ôl hyn, byddai ymarfer cyhoeddus yn cael ei lansio i chwilio am bartneriaid a allai fod â diddordeb mewn helpu i redeg y gwasanaethau hyn ym Mwlch Nant yr Arian, Ynyslas a Choed y Brenin yn y dyfodol. Byddai cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal ar Dachwedd 25, 26 a 27 i roi'r diweddaraf i gymunedau.

44. Ymdriniodd y Prif Weithredwr Dros Dro gyda chwestiwn yr oedd Mr Kim Waters wedi'i ofyn yn ystod y cyfarfod, yn cwestiynu a oedd y Bwrdd yn cydnabod yr argyfwng gyda'r niferoedd cychwynnol ar gyfer Eogiaid yng Nghymru ar gyfer 2024. Nododd er nad oedd yr eogiaid yn cael sylw penodol yn y mesurau perfformiad busnes, roedd mesurau a fyddai'n helpu ac y dylid edrych ar ddeilliannau'r Cynllun Corfforaethol. Byddai'r Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd, yn ymateb ynghylch yr adroddiad penodol a amlygwyd gan Mr Waters.

**I'W WEITHREDU: Y Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd, i ymateb i Mr Kim Waters ynghylch adroddiad Eogiaid Cymru 2024.**

## Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus

## Log Gweithredu'r Bwrdd — Cyhoeddus

Rhif Cam Gweithredu	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif paragraff	Noddwr y Papur	Cam gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
46	Cyhoeddus	21/11/2024	5	11	Cadeiryddion Pwyllgorau	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Tystiolaeth a Gwybodaeth i ddarparu'r Strategaeth Dystiolaeth ddrafft i'r Bwrdd.	Chris Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth	23/01/2025	Parhaus	
47	Cyhoeddus	21/11/2024	5	15	Cadeiryddion Pwyllgorau	CAM GWEITHREDU: Pennaeth y Gwasanaethau Morol a'r Gwasanaeth Cyngori ar Gynlluniau Datblygu (DPAS) i ddarparu gwybodaeth ynghylch penderfyniad datblygu ynni adnewyddadwy a wnaed gan PEDW.	Rhian Jardine, Pennaeth y Gwasanaeth Cyngori Ar Gynlluniau Datblygu (DPAS)	23/01/2025	Wedi'i gwblhau	Anfonodd Pennaeth y Gwasanaethau Morol a'r Gwasanaeth Cyngori ar Gynlluniau Datblygu (DPAS) hyn at yr Ysgrifenyddiaeth, a'i cyfeiriodd ymlaen at aelodau'r Bwrdd ar 21 Tachwedd.
48	Cyhoeddus	21/11/2024	Sesiwn Holi ac Ateb i'r Cyhoedd	44	Amherthnasol	CAM GWEITHREDU: Y Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd i ymateb i Mr Kim Waters ynghylch Adroddiad Eogiaid Cymru 2024.	Ben Wilson - Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd	23/01/2025	Parhaus	

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	23 Ionawr 2025
<b>Teitl y papur:</b>	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
<b>Cyfeirnod y papur:</b>	25-01-B05
<b>Cyflwynwyd y papur gan:</b>	Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro
<b>Diben</b>	Gwybodaeth a thrafodaeth
<b>Crynodeb</b>	Mae'r papur yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar faterion cyfredol.

## Cyflwyniad

1. Mae'r tywydd yn cadw ein timau'n eithriadol o brysur wrth i ni fynd ymlaen tua ganol y gaeaf, gyda Storm Bert yn dod â gwyntoedd cryfion, glaw trwm a llifogydd difrifol ar ddiwedd mis Tachwedd, ac yna gwyntoedd enbyd Storm Darragh ar ddechrau mis Rhagfyr. Mae timau ar draws ein sefydliad wedi bod yn ymwneud â rheoli a monitro digwyddiadau, ymateb i lifogydd, asesu difrod a chyfathrebu i sicrhau ein bod yn diogelu'r cyhoedd ac amddiffyn eiddo ac yn blaenoriaethu gwaith adfer yn briodol. Rwy'n hynod ddiolchgar i bawb a fu'n staffio rotas ac yn gweithio drwy'r nos ac ar benwythnosau i ddarparu ein gwasanaethau ac ymateb i'r stormydd. Ceir rhagor o fanylion ar ein hymateb gweithrediadol a chyfathrebu yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
2. Yn ystod ymweliadau ag Ynysgynwraidd ac Osbaston gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn syth ar ôl Storm Bert, gwelais â'm llygaid fy hun y dinistr a'r effaith a achoswyd gan y llifogydd yn yr ardal honno. Ymwelais hefyd â Phontypridd gyda'n staff rheoli risg llifogydd er mwyn gweld yr effeithiau sylweddol yno, ac yna cyfarfyddais â'r cynghorydd Andrew Morgan, arweinydd Rhondda Cynon Taf a'i uwch dîm arwain. Aethom i nifer o gyfarfodydd amlasiantaeth gyda'r Gweinidog yn dilyn y stormydd, i ddechrau'r broses o adolygu'r ymateb cyfunol a dysgu gwersi. Er bod rhywfaint o feirniadaeth yn y cyfryngau o ran prydlondeb rhybuddion, yn enwedig cyn Storm Bert, yn gyffredinol mae'r adborth i CNC wedi bod yn dda iawn ac mae ein gwaith adfer diflino wedi'i werthfawrogi'n fawr gan y cymunedau yr effeithiwyd arnynt.

3. Yn dilyn hynny, cefais drafodaeth ddefnyddiol gyda Simon Brown, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Swyddfa Dywydd, ynghylch ymdrin â stormydd sylweddol ond ansicr, pan fo rhagweld y tywydd yn gywir yn dod yn eithriadol o anodd. Bydd CNC yn gweithio gyda'r Swyddfa Dywydd a'r Ganolfan Darogan Llifogydd i gynhyrchu canllawiau wedi'u diweddarau.
4. Yn ystod wythnos olaf mis Tachwedd, mynychais Ffair Aeaf Frenhinol Cymru. Cyfarfûm ag Elaine Heckley, Rheolwr Cenedlaethol Cymru ar gyfer Confor, Steve Griffiths o BaSC, Ian Rickman, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, ac Aled Jones, Llywydd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru. Trafodais adolygiad annibynnol Dr Susannah Bolton o'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) sydd ar ddod gyda'r undebau ffermio, a phryderon eraill yn amrywio o'r cyfnod caeedig ar gyfer taenu slyri a phwysau ar gapasiti storio mewn tywydd gwlyb i effaith llifogydd ac atebion i lifogydd ar dir amaethyddol. Defnyddiwyd y digwyddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i gyhoeddi cynigion wedi'u diweddarau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn dilyn ymgynghoriad pellach ag undebau'r ffermwyr a rhanddeiliaid eraill. Bydd y cynllun terfynol bellach yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2025, gyda'r cynllun yn cael ei lansio'n llawn ar ddechrau 2026.
5. Hefyd ym mis Tachwedd, mynychais gyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth gyda'n cynrychiolwyr o'r undebau llafur. Roedd hwn yn gyfle defnyddiol i gael adborth ar gyfathrebu a gweithredu'r achos dros newid, a chytunwyd i roi mwy o esboniad am y penderfyniad i ddod â'r adolygiad o uwch-arweinyddiaeth i ben. Byddwn hefyd yn meithrin perthynas uniongyrchol gryfach rhwng ein hundebau llafur a'r Bwrdd, i gynorthwyo gwelliant mewn cyfathrebu ac ymgynghori ar lefel uchel.
6. Yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Rhagfyr, ymunais â chyfarfod uwch-swyddogion IR35 am y tro cyntaf, sef galwad sy'n dod â chynrychiolwyr allweddol o Lywodraeth Cymru, CThEF ac CNC ynghyd. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaed cynnydd da o ran pennu ffordd ymlaen gyda'r nod o ddatrys y mater o fewn blwyddyn ariannol 2024/25. Mae ymgynghorwyr allanol Deloitte yn rhoi cyngor a chymorth yn y broses hon.
7. Yn fwy cyffredinol, rydym yn parhau i gynnal perthnasoedd gwaith cryf a chyfathrebu agored gyda thimau polisi Llywodraeth Cymru a'n tîm nawdd. Rwy'n siarad yn rheolaidd â Claire Bennett, y Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol, ac roedd ein cyfarfod o'r Pwyllgor Nawdd ym mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar berfformiad ariannol a gweithredol a phrosiectau newid allweddol, gan gynnwys yr achos dros newid a'n cynlluniau ar gyfer hyfforddi a datblygu'r Bwrdd.
8. Rwyf hefyd wedi cael cyfarfodydd â rhanddeiliaid yn y sector dŵr, gan gynnwys Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) a Hafren Dyfrdwy (HD), a Phrif Weithredwr Ofwat David Black, lle buom yn trafod cyfathrebu ynghylch Penderfyniad Terfynol PR24 a'r ffordd orau o gydweithio ar ôl y cyhoeddiad hwnnw. Mae perfformiad cwmnïau dŵr yn parhau i fod yn faes ffocws sylweddol i ni. Yn dilyn presenoldeb adeiladol ym Mhwyllgor Ansawdd a Diogelwch Dŵr Cymru ym mis Rhagfyr, rydym wedi derbyn



gwahoddiad i fynychu cyfarfod o Fwrdd Hafren Dyfrdwy yn y dyfodol i drafod perfformiad ac mae ymweliad â Llyn Efyrynwy wedi'i gynnig i edrych ar rai o'r materion yn y dalgylch yno.

9. Mynychais Gyfarfod Prif Weithredwyr Cyrff Cyhoeddus ym mis Rhagfyr. Roedd hwn yn gyfle amserol i gwrdd wyneb yn wyneb â phrif weithredwyr eraill, am y tro cyntaf mewn rhai achosion. Defnyddiwyd y cyfarfod i drafod canlyniadau cyllideb, meysydd ar gyfer cydweithredu posibl, a chynllunio senarios yn y dyfodol. Gellid cyflwyno ein gwaith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y Safon Llesiant Sefydliadol fel eitem bosibl ar yr agenda ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.
10. Cyfarfûm hefyd â Lhosa Daly, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, ym mis Rhagfyr. Cytunwyd i ddod â'n timau gweithredol ynghyd i weld a allwn ni helpu i ddatblygu eu cynllun corfforaethol newydd, gan fod CNC wedi bod drwy'r un broses yn ddiweddar iawn. Cefais gyfarfod rhagarweiniol gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Derek Walker, a Helen Nelson, Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol, lle cytunwyd i geisio platfform ar y cyd yn y Senedd i hyrwyddo ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol interim a'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol sydd ar ddod, i'w gyhoeddi ym mis Ebrill.
11. Rwyf hefyd wedi cael y cyntaf o nifer o gyfarfodydd gyda chydweithwyr o Rwydwaith Ewrop o Benaethiaid Asiantaethau Diogelu'r Amgylchedd (EPA), i ddechrau cynllunio ar gyfer y ddau gyfarfod llawn eleni – yn Fienna ym mis Ebrill, a Chaerdydd ym mis Hydref. Fel gwesteiwyr y cyfarfod ym mis Hydref, gallwn gynnig eitemau ar yr agenda a thynnu sylw at rai o'r materion allweddol yma yng Nghymru, megis etifeddiaeth ein tirweddau diwydiannol. Bydd y cyfarfod ym mis Ebrill yn canolbwyntio ar rôl strategol asiantaethau diogelu'r amgylchedd, sut y gallwn ni feithrin ymddiriedaeth ar adeg o argyfwng a thrawsnewid, a heriau a chyfleoedd deallusrwydd artiffisial a digideiddio.
12. Yn fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro, rwyf wedi cael cyfarfodydd cychwynnol ag Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac ar wahân gyda Matthew Edwards, Cyfarwyddwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru, a'r Rheolwr Archwilio Emma Woodcock. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth ddatblygu fy ngwybodaeth am rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, ac yn cynnwys diweddariad ar rai o'r risgiau sy'n dod i'r amlwg ar ein Log Risgiau Sefydliadol.
13. Yn fewnol, cynhaliwyd cyfarfod o'n Pwyllgor Llesiant, Iechyd a Diogelwch ganol mis Rhagfyr. Mabwysiadwyd dull gwahanol at yr agenda, gan ganolbwyntio i ddechrau ar adolygiad o risgiau a materion, a grwpio eitemau tebyg gyda'i gilydd i hyrwyddo trafodaeth fwy effeithlon. Roedd y cyfarfod yn cynnwys adolygiad da o'n Hadroddiadau Digwyddiadau Difrifol, mae'r broses ar gyfer yr adolygiadau hyn wedi derbyn barn archwilio mewnol sylweddol.
14. Mae gwaith i weithredu'r achos dros newid yn parhau, gyda'r ffocws bellach yn symud i ddod o hyd i rolau ar gyfer cydweithwyr sydd wedi'u dadleoli drwy

ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer y nifer sylweddol o swyddi gwag sy'n parhau yn ein strwythur. Mae ein timau adnoddau dynol a recriwtio yn parhau i ddarparu strwythur a chefnogaeth gadarn ar gyfer y broses hon, gyda hyfforddiant ychwanegol yn cael ei ddarparu i reolwyr llinell a all fod yn rhan o ymgynghoriadau unigol a phrosesau diswyddo dros y misoedd nesaf.

15. Yn drist iawn, ym mis Tachwedd gwnaethom golli ein cydweithiwr hoffus Rhys Jenkins, arweinydd tîm yn ein tîm rheoli tir, a gollodd ei fywyd mewn gwrthdrawiad traffig ar y ffordd. Bu Gareth O'Shea a minnau yn yr angladd ym mis Rhagfyr, ochr yn ochr â llawer o gydweithwyr agos Rhys. Roedd yn ddiwrnod anodd a theimladwy iawn, ac rwy'n arbennig o ddiolchgar i'n Pennaeth Cyfathrebu dros dro, Meinir Wigley, am ddarllen teyrnged er cof am Rhys ar ran CNC. Roedd Rhys hefyd yn hyfforddwr rygbi a dyfarnwr, ac yn wŷr a thad selog i'w deulu ifanc.
16. Ym mis Rhagfyr, yn drist iawn gwnaethom golli cydweithiwr arall hoffus, sef Bruce Theobald, cynghorydd arbenigol yn ein tîm safonau ystadau. Roedd Bruce wedi ymroi ei yrfa hir i reoli coedwigaeth ac roedd yn arbenigwr a gydnabyddir yn genedlaethol ar sefydlu ac ailstocio coedwigoedd. Mae'n gadael ei wraig a dwy ferch, a llawer o gydweithwyr sy'n drist o'i golli.

## Materion Strategol

### Grŵp Cyswllt y Diwydiant Niwclear (NILG)

17. Ym mis Tachwedd, cynhaliodd CNC gyfarfod o Grŵp Cyswllt y Diwydiant Niwclear (NILG) yng Nghaerdydd. Mae'r grŵp yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i hwyluso trafodaethau rhwng gweithredwyr safleoedd niwclear ac asiantaethau amgylcheddol y DU, yn ogystal â rheoleiddwyr eraill. Mae NILG yn chwarae rhan hanfodol wrth feithrin cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth o fewn sector niwclear y DU, gan sicrhau y gall gweithredwyr diwydiant ac asiantaethau rheoleiddio fynd i'r afael yn effeithiol â heriau ac addasu i newidiadau yn y dirwedd niwclear. Gwnaethom arwain trafodaethau ar gynaliadwyedd a'n cynllun sero net ein hunain, a ysgogodd ddiddordeb sylweddol.

### Penderfyniad Terfynol Adolygiad Prisiau Ofwat 24

18. Wrth i ni nesáu at gyfnod buddsoddi newydd i gwmnïau dŵr, rydym wedi ceisio a sicrhau'r lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad y mae mawr ei angen yn yr amgylchedd, gan dargedu gweithrediadau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ein dyfroedd. Cyhoeddodd Ofwat eu Penderfyniadau Terfynol yn ystod mis Rhagfyr, ac mae wedi cymeradwyo gwariant o £1.7 biliwn ar gyfer y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yng Nghymru, gan gynnwys fel a ganlyn:
  - £192 miliwn ar gyfer lleihau llygredd maetholion
  - £1.1 biliwn tuag at leihau niwed gan orlifoedd storm
  - £88 miliwn ar ehangu gweithfeydd trin dŵr gwastraff
  - £14 miliwn ar adfer mawndiroedd

Mae hyn yn gynydd sylweddol o'r £234 miliwn a gymeradwywyd yn PR19 bum mlynedd yn ôl. Bydd cynlluniau busnes y cwmnïau dŵr y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2030.

### **Ein Cynlluniau Dŵr i Gymru**

19. Mae ein Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn nodi'r hyn a wyddom am ein hafonydd, llynnoedd, camlesi, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol, beth sydd angen i ni ei wneud i'w gwella, a sut y byddwn yn gwneud hyn. O dan Reoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, mae'n ofynnol i ni ddiweddarau'r cynlluniau bob chwe blynedd, gydag amserlen o ymgynghoriadau cyhoeddus i sefydlu pwy sydd eisiau bod yn rhan o'r broses, ac yna beth sydd angen ei wneud. Daeth y cyntaf o'r ymgynghoriadau hyn, ein hymgyngoriad Gweithio Gyda'n Gilydd, i ben ym mis Rhagfyr a bydd yn ein helpu i nodi pwy sydd am gymryd rhan yn y broses o ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Bydd yr ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau yn dechrau ym mis Mehefin 2025, a bydd yr ymgynghoriad terfynol ar y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd drafft, ar ôl eu diweddarau, yn rhedeg o fis Mehefin 2026.

### **Diweddariad ar Brosiect Arddangos Afon Teifi**

20. Yn dilyn datganiad o ddiddordeb llwyddiannus ar gyfer datblygu cynnig Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ym mis Hydref, rydym wedi cael ein gwahodd gan y Loteri Genedlaethol i gyflwyno cais llawn o fewn y deuddeg mis nesaf. Mae prosiect *Teifi Fyw – Pobl a Natur Gyda'i Gilydd / Living Teifi – People and Nature Together* yn anelu at warchod a gwella treftadaeth dalgyloch afon Teifi, gan osod cymunedau wrth galon cydweithredu i gyflawni adferiad amgylcheddol a diwylliannol. Bydd y prosiect saith mlynedd, gwerth £11 miliwn, yn cael arian cyfatebol gan Dŵr Cymru ac Ofwat, ac mae'n ceisio £7 miliwn gan y Loteri Genedlaethol ac £1.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

### **Comisiwn ac Adolygiad Annibynnol ar gyfer y Sector Dŵr**

21. Ym mis Hydref, lansiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru gomisiwn annibynnol i edrych ar y sector dŵr a'r modd mae'n cael ei reoleiddio. Bydd y comisiwn yn cael ei gadeirio gan gyn-Ddirprwy Lywodraethwr Banc Lloegr, Syr Jon Cunliffe, a'i nod yw darparu dull hirdymor ar gyfer rheoleiddio a pholisi yn y sector dŵr, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cwsmeriaid a'r amgylchedd. Bydd y comisiwn yn ymgynghori ag arbenigwyr mewn meysydd megis yr amgylchedd, iechyd y cyhoedd, peirianeg ac economeg, yn ogystal â chwsmeriaid, buddsoddwyr a'r cyhoedd yn ehangach. Bydd ei argymhellion yn sail i ddeddfwriaeth bellach.
22. Rydym yn croesawu'r amcanion a osodwyd ar gyfer y comisiwn, sy'n cydnabod yr angen i gyflawni newid trawsnewidiol a mabwysiadu dull cydweithredol a strategol sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd ar gyfer rheoli dŵr, gan fynd i'r afael â llygredd ac

adfer natur. Cynhwysir hefyd well darpariaeth ar gyfer dŵr glân a darparu seilwaith gwydn, gan ragweld anghenion y dyfodol a heriau'r hinsawdd.

23. Cyfarfu ein cadeirydd a'n prif weithredwr dros dro â Syr Jon Cunliffe yn ystod mis Tachwedd, gan nodi dechrau ein cyfraniad i'r adolygiad hollbwysig hwn.

### **Dull Strategol ar gyfer Pysgodfeydd a Dyframaethu**

24. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Ddatganiad Ysgrifenedig ar ddull strategol Llywodraeth Cymru o ymdrin â physgodfeydd a dyframaethu. Nododd y datganiad, yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeidd a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, fod Deddf Pysgodfeydd 2020 wedi creu fframwaith ar gyfer rheoli pysgodfeydd morol a dyframaethu'r DU. Mae gwaith pysgodfeydd morol Llywodraeth Cymru bellach wedi'i fframio o amgylch amcanion pysgodfeydd y Ddeddf, gyda pholisïau ar gyfer cyflawni'r amcanion a nodir yn y Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi a chyflawni Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd i sicrhau bod stociau pysgod môr Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ar sail tystiolaeth.
25. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn glir mai'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yw maes gwaith blaenoriaeth yr Is-adran Pysgodfeydd am weddill tymor y Senedd, ochr yn ochr â blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys argyfyngau natur a hinsawdd a chyflawni ei dyletswyddau statudol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi twf cynaliadwy'r sector dyframaethu (pysgod cregyn a gwymon) a arweinir gan y diwydiant drwy fentrau cynllunio morol a chyllid ac mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn amlygu'r angen parhaus am gamau gweithredu ehangach i ddiogelu stociau eogiaid a brithyllod y môr dan fygythiad, gan gynnwys canolbwyntio ar ansawdd dŵr gwell.
25. Bydd CNC yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chyfuno tystiolaeth trwy fentrau megis prosiectau Asesu Gweithgareddau Pysgodfeydd Cymru ac Asesu Gweithgareddau Dyframaethu Cymru. Byddwn hefyd yn cefnogi dull strategol Llywodraeth Cymru o ymdrin â physgodfeydd morol a dyframaethu drwy'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Bysgodfeydd Cymru a grwpiau amrywiol sy'n gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd.

### **Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

26. Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig gynllun amlinellol wedi'i ddiweddarau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae amlinelliad y cynllun arfaethedig wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae'r diweddariad mwyaf diweddaraf yn cynnwys newidiadau pwysig i gynigion blaenrol yn dilyn cyfnod o weithio mewn partneriaeth ag undebau'r ffermwyr, grwpiau amgylcheddol a rhanddeiliaid eraill ar Grŵp Bord Gron y Gweinidog a grwpiau ategol, gan gynnwys y Panel Atafaelu Carbon.

27. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys fel a ganlyn:
- Mae haen gyffredinol wedi'i chadw ond gyda nifer cyffredinol llai o gamau gweithredu cyffredinol a chamau gweithredu dewisol a chydweithredol ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n dewis gwneud mwy. Mae nifer y camau gweithredu cyffredinol wedi'i ostwng i ddeuddeg, gyda newidiadau i lawer ohonynt.
  - Mae'r targed o 10% ar lefel fferm ar gyfer gorchudd â choed wedi'i ddileu a bydd yn cael ei newid gan darged cynllun cyfan, y cytunir arno ar ôl trafodaethau gyda Grŵp Bord Gron y Gweinidog, a chamau gweithredu cyffredinol newydd ar gyfer cynllun am gyfleoedd i blannu coed a chreu gwrychoedd. Bydd ffermwyr sy'n gwneud cais yn gallu penderfynu lle maen nhw eisiau ychwanegu mwy o goed/gwrychoedd ar eu fferm a chael cyllid i'w cefnogi, trwy haen ddewisol y cynllun. Mae'r gofyniad i ffermwyr reoli o leiaf 10% o'u fferm fel cynefin wedi'i gynnal.
  - Mae'r camau gweithredu iechyd, lles a bioddiogelwch anifeiliaid wedi'u huno mewn un cam gweithredu cyffredinol symlach i ganolbwyntio trafodaethau â milfeddyg y fferm ar ganlyniadau iechyd a lles gwell i anifeiliaid. Mae'r gofyniad i bob fferm fod â gorsaf ymolchi wedi'i newid i gam gweithredu dewisol, gan gydnabod y gall anghenion bioddiogelwch ffermydd unigol fod yn wahanol iawn.
  - Cadarnhad y bydd taliadau ychwanegol am werth cymdeithasol yn cael eu gwneud o dan y rhan gyffredinol o'r cynllun. Bydd hyn yn cynrychioli'r manteision ehangach a ddaw o ddiwydiant amaethyddol cynaliadwy.
  - Ystyried Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a hawliau tir comin yn y Taliad Cyffredinol. Bydd cymorth pellach i'r ddau hefyd ar gael fel camau gweithredu dewisol a chydweithredol.
28. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor a thystiolaeth ar gyfer dylunio a chyflawni'r cynllun. Fel rhan o hyn, rydym wedi sefydlu prosiect peilot i brofi proses ar gyfer creu cynlluniau rheoli ar safleoedd dynodedig. Mae cynigion presennol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i bob daliad a leolir gyda neu oddi mewn i safle dynodedig gael cynllun pwrpasol. Bydd y peilot yn rhedeg tan ddiwedd mis Mawrth 2025 mewn cydweithrediad â Thaliadau Gwledig Cymru.

### **Apeliadau Trwyddedu yn Ddiweddar**

29. Cafwyd sawl apêl yn ddiweddar i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn ymwneud â phenderfyniadau trwyddedu CNC. Yn dilyn gwrandawiadau, mae'r arolygydd bellach wedi cyhoeddi penderfyniadau ar apeliadau a gyflwynwyd gan Platts Agriculture Ltd, Glandŵr Cymru, a Radnor Hills Mineral Water Company Ltd. Dim ond yr ail apêl a gadarnhawyd. Mae'r penderfyniadau wedi cadarnhau cadernid ein dull o ddarparu amddiffyniad amgylcheddol ac ecolegol, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
30. Rydym bellach yn adolygu'r gwersi a ddysgwyd, ystyried y goblygiadau i'n polisïau a'n prosesau, a chyflawni'r camau gweithredu sy'n ofynnol gan yr arolygydd. Roedd

penderfyniad Radnor Hills yn dibynnu ar wybodaeth newydd a gyflwynwyd yn ystod y broses benderfynu faith ac rydym yn derbyn barn yr arolygydd. Ym mhob achos, canfu'r arolygydd fod CNC wedi gweithredu'n rhesymol wrth roi'r trwyddedau a thrwy gydol y broses apêl, felly mae unrhyw hawliadau am gostau yn erbyn CNC wedi'u gwrthod.

31. Rydym yn aros am benderfyniadau yn ymwneud â thair apêl trwyddedu arall gan Glandŵr Cymru, ar ôl gwrandawiadau a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr. Yn ogystal, mae gwrandawriad apêl trwyddedu ansawdd dŵr wedi'i gynllunio ar gyfer Chwefror 2025.

### **Rhaglen Cyflawni Cyfalaf yr Argyfyngau Natur a Hinsawdd**

32. Mae gan raglen yr argyfyngau natur a hinsawdd gyllideb o £27.6 miliwn. Erbyn mis Hydref 2024, roedd y gwariant hyd yn hyn yn £11.8 miliwn. O fewn y portffolio, gostyngwyd cyllideb y rhaglen mawndiroedd o £750,000 yn ddiweddar oherwydd oedi wrth recriwtio i rolau a gynlluniwyd. Mae pob rhaglen arall i fod i wario a chyflawni yn ôl y gyllideb ac yn unol â'r cynllun, ac rydym wedi ymestyn 66% o'r penodiadau cyfnod penodol o ddeuddeng mis (hyd at fis Mawrth 2026) i gefnogi dulliau cyflenwi.
33. Mae gennym gyfle i wneud cais am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen yr argyfyngau natur a hinsawdd, a fydd yn helpu i leddfu'r pwysau ar gyllideb y flwyddyn nesaf. Mae sgysiau ar y gweill ynglŷn â chyllideb y flwyddyn nesaf, a bwriad Llywodraeth Cymru yw edrych ar lythyrau cynnig grant aml-flwyddyn ar gyfer y rhaglen ansawdd dŵr.

## **Materion Gweithredol**

### **Stormydd Bert a Darragh**

34. Rydym wedi bod yn hynod o brysur yn y cyfnod hwn gyda digwyddiadau tywydd garw. Tua diwedd mis Tachwedd, daeth Storm Bert â glaw trwm ac effeithiau mewn llawer o ardaloedd, yn enwedig yn Ne Cymru, gydag adroddiadau bod dros 700 o eiddo wedi dioddef llifogydd ar draws nifer o awdurdodau lleol (Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Merthyr Tudful oedd y rhai yr effeithwyd arnynt fwyaf). Cyhoeddwyd 65 o negeseuon llifogydd, 68 o rybuddion llifogydd a dau rybudd llifogydd difrifol mewn cysylltiad â'r storm hon. Roedd cyflymdra ymateb afonydd i'r glawiad trwm yn peri anawsterau i'r holl ymatebwyr, ac mae'n nodwedd y byddwn yn gweld mwy ohoni gyda digwyddiadau glawiad mwy eithafol a chyflym.
35. Daeth Storm Darragh bythefnos yn ddiweddarach, gyda 65 o negeseuon llifogydd a 29 o rybuddion llifogydd yn cael eu cyhoeddi, ynghyd â rhybudd tywydd coch prin am effeithiau gwynt, a arweiniodd at ddifrod sylweddol ar draws rhai ardaloedd o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Gan effeithio'n bennaf ar blanhigfeydd, rydym wedi gweld ardaloedd mawr o goed yn cael eu cwmpo a'u torri gan y gwynt ar draws clystyrau cyfan o goed ar draws llawer o Gymru. Arweiniodd y storm at gau

ffyrdd cyhoeddus a llwybrau mynediad trydydd partiön, llinellau pŵer yn cwmpo ar draws ein tir, a ffyrdd coedwig a llwybrau hamdden yn cael eu rhwystro.

36. Ers y storm, mae timau gweithredol wedi bod yn gweithio'n galed ar flaenoriaethau allweddol, gan gynnwys cael gwared ar ein coed sy'n rhwystro ffyrdd cyhoeddus a mynediad i gartrefi. Mae archwilio ein coedwigoedd wedi bod yn heriol, gyda ffyrdd coedwig yn amhosib eu defnyddio mewn rhai ardaloedd; mae delweddau lloeren a defnyddio dronau wedi helpu i ddarparu darlun ehangach. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, sydd wedi comisiynu dadansoddiad synhwyro o bell o goed sydd wedi'u cwmpo gan y gwynt ar draws coedwigoedd cyhoeddus a phreifat ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd nad ydym wedi gallu ymweld â nhw. Bydd yr wybodaeth hon ar gael ym mis Ionawr a bydd yn rhoi amcangyfrif ar draws yr ystad o faint o goed a gafodd eu cwmpo gan y gwynt.
37. Erbyn canol mis Rhagfyr, datgelodd ein hasesiad fel a ganlyn:
- Mae'r ffyrdd cyhoeddus y mae ein coed yn effeithio arnynt ar agor ac eithrio mewn un safle lle mae gwaith yn mynd rhagddo, ac yma mae dewis arall diogel dros dro wedi'i drefnu. Mae mynediad i safleoedd ar gyfer gweithrediadau coedwig parhaus yn glir ar y cyfan.
  - Yn ystod y storm, caewyd mynediad i'r cyhoedd cyn belled ag y gallem ar ystad sydd â mynediad agored i raddau helaeth. Rydym yn ailagor y coedwigoedd yn raddol wrth gynghori y gallai meysydd parcio a llwybrau barhau i fod ar gau er mwyn galluogi ein timau i weithio'n ddiogel.
  - Mae tua 600 hectar o'n coedwigoedd (0.5% o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru) wedi cael eu heffeithio'n sylweddol gan ddifrod stormydd (h.y. mae'r rhan fwyaf o'r coed wedi cwmpo yn sgil y gwyntoedd). Mae hyn yn cyfateb i tua 300,000 i 400,000m<sup>3</sup> o bren, neu tua 50% o'n cynhyrchiad blynyddol. Mae nifer y coed sydd wedi cael eu cwmpo gan y gwynt mewn ardaloedd lle mae mwyafrif y coed yn dal i sefyll yn cael ei asesu.
  - Byddwn yn dod â'r pren a gafodd ei gwmpo a'i dorri gan y gwynt o fewn ein rhaglenni cynaeafu dros y ddwy i dair blynedd nesaf. Rydym yn asesu'r goblygiadau ar gyfer cyfaint ac incwm cyffredinol. Mae'r rhaglen ailstocio i raddau helaeth yn gyflawn hyd yma.
38. O'i hystyried yn ei chyfanrwydd, achosodd y storm ddifrod eang yn ein coedwigoedd ar draws llawer o Gymru, er mai ychydig neu ddim effaith a welodd Canol De Cymru a'r De-ddwyrain. Roedd y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol dan ein gofal uniongyrchol yn gymharol ddianaf, gan eu bod yn cynnwys cynefinoedd sy'n gallu gwrthsefyll gwyntoedd cryfion yn well. Yn fwy cadarnhaol, mae'r cydweithredu rhwng timau ar draws CNC a chyda chontractwyr ac awdurdodau lleol wedi'i amlygu gan lawer o dimau fel llwyddiant, ac rydym hefyd wedi cael canmoliaeth gan drigolion yr effeithiwyd arnynt. Ar ôl digwyddiad lle mae nifer sylweddol o goed yn cael eu cwmpo gan y gwynt, mae coedwigaeth ar ei gorau yn symud yn esmwyth ac yn ddiogel i gamau gweithredu costeffeithiol ac yn gwneud penderfyniadau da i adeiladu gwytnwch hirdymor; ar ei gwaethaf, ceir brys i wireddu gwerth y pren. Rydym yn arwain drwy esiampl ar goedwigaeth ar ei gorau.

39. Bu diddordeb mawr gan y cyhoedd a'r cyfryngau ac yn wleidyddol yn yr ymateb i'r ddwy storm. Rydym wedi mynychu sesiynau ôl-drafodaeth gyda'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog ochr yn ochr ag arweinwyr awdurdodau lleol ac eraill a fu'n ymwneud â'r ymateb. Rhoesom dystiolaeth hefyd mewn sesiwn o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar lifogydd yng Nghymru, a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr; cynrychiolwyd CNC gan Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau.
40. Fel bob amser gyda digwyddiadau ar raddfa debyg, mae cryn dipyn o waith adfer ac ymateb i ymholiadau ar ôl y digwyddiad. Gwnaethom berfformio'n dda, ond rydym yn cydnabod bod y digwyddiadau hyn a'r cyfnod sy'n dilyn yn ein rhoi dan bwysau ac yn flinedig i bob cydweithiwr. Fel sy'n arferol gyda digwyddiadau sylweddol, rydym yn cynnal ein hadolygiad ein hunain o'r gwersi a ddysgwyd a byddwn yn gwneud gwelliannau lle bo angen a lle mae modd gwneud hynny.

### **Erlyniad Binea**

41. Roedd CNC yn y llys yn gynnar ym mis Rhagfyr i erlyn Dŵr Cymru am ollyngiad a effeithiodd ar welyau cocos Cilfach Tywyn. Roedd gan yr orsaf bwmpio y cymerwyd camau gweithredu yn ei herbyn drwydded a oedd yn nodi y gallai wneud ollyngiad mewn sefyllfa lle bod argyfwng pe bai methiant yn y brif bibell ymgodol yn arwain ati, oni bai fod diffygion nad oedd Dŵr Cymru wedi ymdrin â hwy. Bu methiant yn y prif bibell ymgodol a chymerwyd yr achos gennym ar y sail nad oedd y cwmni wedi gweithredu'n briodol drwy beidio â gosod pibellau cryfach fel y nodir yn ei gynllun busnes. Gwnaethom haeru bod y cwmni'n gwybod o flaen llaw fod y bibell hon yn peri risg sylweddol a'i fod wedi bwriadu gosod pibell newydd yn ei lle, ond ni wnaeth hynny.
42. Dadleuodd yr amddiffyniad, a chytunodd yr ynad, na allem brofi heb ddadansoddiad arbenigol fod y bibell wedi torri oherwydd y defnydd roedd wedi'i gwneud ohono, ac felly ni allem brofi bod diffyg cydymffurfio â'r drwydded. Mae ein tîm cyfreithiol yn adolygu goblygiadau'r achos, ac wedi canmol ein swyddog a gyflwynodd dystiolaeth fel tyst arbenigol yn y gwrandawriad ac a gafodd ei groesholi am ddwy awr.

### **Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren**

43. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae tîm Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren wedi cynyddu ymgysylltiad yn sylweddol i sicrhau bod cymunedau a phartneriaid yn ganolog i ddatblygu strategaeth rheoli dŵr yn yr hirdymor. Gyda lansiad gwefan ryngweithiol newydd, cyflwyno sioeau teithiol mewn cymunedau, gan gynnwys digwyddiadau a fynychwyd gan gydweithwyr CNC yn y Drenewydd, Llanidloes a Meifod, a chyfres o weithdai technegol, mae'r tîm yn casglu safbwyntiau, syniadau a chyfleoedd i helpu i lywio cyfeiriad Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren i'r dyfodol.
44. Drwy ddwyn ynghyd y gwaith ymgysylltu a'r sylfaen dystiolaeth dechnegol, mae cyfres o senarios strategol yn cael eu datblygu i ddangos y gwahanol ffyrdd y gellir rheoli dŵr ar draws dalgyrch uchaf afon Hafren. Bellach, mae'r gwaith yn cael ei



ddatblygu'n strategaeth cyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol yng ngwanwyn/haf 2025. Drwy gyfrwng Grŵp Arweinwyr Strategol Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren, mae CNC yn parhau i sicrhau bod blaenoriaethau CNC a Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried wrth i'r cynllun ddatblygu.

### **Dosbarthiadau Dŵr Ymdrochi 2024**

45. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddsbarthiadau dŵr ymdrochi 2024 ar gyfer Cymru. Llwyddodd 108 o 110 o safleoedd dŵr ymdrochi i gyrraedd y safon ddigonol o leiaf o dan y Rheoliadau Dŵr Ymdrochi, sy'n cyfateb i gydymffurfedd o 98%, sy'n debyg i dymor 2023. Dosbarthwyd dau safle – Aberogwr a'r Rhyl – yn wael yn 2024; ar gyfer y safleoedd hyn, byddwn yn gwerthuso'r dystiolaeth ac yn penderfynu pa gamau gweithredu sydd eu hangen i wella ansawdd y dŵr.
46. Symudodd Bae Jackson yn y Barri o ddigonol i dda, a symudodd Bae'r Tŵr Gwyllo o wael i ddigonol. Er ein bod yn croesawu'r newidiadau, mae amrywiaeth gydnabyddedig mewn ansawdd dŵr ymdrochi ar draws y Barri oherwydd y dalgylchoedd trefol mawr. Mae'n bleser gennym adrodd hefyd fod y gwaith a wnaed yn y Llyn Morol wedi symud y dosbarthiad o ddigonol i dda eleni.

### **Ymbelydredd mewn Bwyd a'r Amgylchedd (RIFE)**

47. Ym mis Tachwedd, cyhoeddwyd adroddiad Ymbelydredd mewn Bwyd a'r Amgylchedd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hwn yn adroddiad i'r cyhoedd sy'n ymwneud â gollyngiadau ymbelydrol ledled y Deyrnas Unedig o ffynonellau niwclear ac anniwclear. Nid oedd unrhyw faterion sy'n peri pryder i Gymru, ac mae'r ddau safle datgomisiynu niwclear yng Nghymru yn dangos tuedd tuag at i lawr yn gyffredinol yn lefelau'r ymbelydredd sy'n cael eu monitro. Roedd cyfanswm y dosau a adroddwyd yn aros yn weddol debyg o flwyddyn i flwyddyn ac roeddent ymhell islaw'r terfyn dos cyfreithiol.

### **Fersiwn 5 Safon Sigr Coetiroedd y Deyrnas Unedig (UKWAS)**

48. Mae Safon Sigr Coetiroedd y Deyrnas Unedig yn safon goedwigaeth ddeinamig sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu datblygiadau yn y consensws ar reoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn y Deyrnas Unedig. Mae Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC) y Deyrnas Unedig wedi cwblhau ei phroses gymeradwyo ac wedi cadarnhau y gall symud ymlaen â mabwysiadu Fersiwn 5 o Safon Sigr Coetiroedd y Deyrnas Unedig fel safon sy'n cydymffurfio â'r rhaglen ar gyfer y Deyrnas Unedig, gyda dyddiad dod i rym o 1 Rhagfyr 2024. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd Rhyngwladol (FSC) wedi nodi nad yw mewn sefyllfa i gymeradwyo Fersiwn 5 o Safon Sigr Coetiroedd y Deyrnas Unedig o fewn yr un amserlen.
49. Mae gan CNC ardystiad deuol. Rydym yn rheoli'r newid i Fersiwn 5 o Safon Sigr Coetiroedd y Deyrnas Unedig (gwelliant ar Fersiwn 4) drwy ddiweddarau ein

canllawiau a rhannu'r wybodaeth â chydweithwyr sy'n rheoli ein coedwigoedd. Bydd yr archwiliad yn 2025 yn cael ei gynnal yn unol â Fersiwn 4 a Fersiwn 5 o Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig (oni bai fod y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd Rhyngwladol yn cymeradwyo Fersiwn 5 cyn dyddiad yr archwiliad, a fydd yn cael ei gadarnhau yn gynnar yn 2025).

## Cyfathrebu

### Cyfathrebu Corfforaethol

50. Roedd cyfathrebu canlyniad yr achos dros newid i gydweithwyr a rhanddeiliaid allanol yn dominyddu dechrau'r cyfnod hwn ac roedd angen cryn dipyn o amser ac adnoddau. Yn benodol, denodd y newidiadau arfaethedig i'n gwasanaethau canolfan ymwelwyr a sesiynau galw heibio i'r cyhoedd ddiddordeb sylweddol gan y cyfryngau a grwpiau ymgyrchu. Cefnogodd y tîm cyfathrebu y tîm masnachol i hyrwyddo a rheoli materion yn ymwneud â'r digwyddiadau hyn. Parhawyd i weithio gyda chydweithwyr gohebu a materion cyhoeddus i sicrhau cysondeb yn yr ymatebion a roddwn i'r llif cyson o ymholiadau ar y mater hwn.
51. Parhaodd y digwyddiadau galw heibio cyhoeddus ac ar-lein yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig drwy gydol y cyfnod hwn. Cefnogodd y tîm cyfathrebu y tîm tirweddau dynodedig drwy fynychu'r digwyddiadau â'r proffil uchaf a chynghori ar ymatebion i ymholiadau gan y cyfryngau a sbardunwyd gan rhanddeiliaid â buddiant.

### Mae Cymunedau'n Gallu Gwrthsefyll Newid yn yr Hinsawdd

52. Neilltuwyd amser ac adnoddau sylweddol i gyfathrebiadau rhybuddio a hysbysu cyn ac yn ystod stormydd Bert a Darragh, y broses adfer, ac i boblogi rotâu dyletswydd. Sbardunodd effaith y stormydd hyn yng Nghymru ddiddordeb sylweddol yn y cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol, a chynhaliwyd dros ddeugain o gyfweiliadau â'r cyfryngau yn ystod y ddwy storm.
53. Roedd yr amser a'r ymdrech a fuddsoddwyd i hyrwyddo ein Gwasanaethau Llifogydd – Rhybuddio a Hysbysu gyda phartneriaid Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a'r cyfryngau yn ystod ein hwythnos #YmwybyddiaethLlifogydd yn talu ar ei ganfed gan fod ein hadnoddau a'n negeseuon yn ffres yn meddyliau pawb. Er i'r stormydd arwain at gwestiynau anodd ynghylch galluoedd CNC, maent yn hollbwysig wedi ein galluogi i dynnu sylw at negeseuon allweddol ynghylch ein gwasanaethau llifogydd ar-lein, y gwaith sy'n mynd rhagddo i archwilio ac atgyweirio asedau yn dilyn digwyddiadau o'r fath, a'r heriau o ran rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol.
54. Cyflawnwyd ymdrechion i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn y modd yr ydym yn rheoli perygl llifogydd a achosir gan yr hinsawdd hefyd drwy ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Defra wrth gyhoeddi'r Rhaglen Diwygio Diogelwch Cronfeydd Dŵr. Yn ystod y sesiynau galw heibio cyntaf ar gyfer

Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren, tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd mabwysiadu dull partneriaeth o reoli perygl llifogydd yn Nyffryn Hafren yn y dyfodol.

### **Llygredd yn Cael ei Atal Hyd yr Eithaf**

55. Roedd rheoli'r naratif a'r negeseuon o gwmpas cyhoeddi ein Hadroddiad Rheoleiddio Blyneddol yn ffocws allweddol yn y cyfnod hwn, o ystyried y ffocws cynyddol ar ein gweithgarwch rheoleiddio. Sicrhodd creu ffeithluniau i gefnogi'r cyhoeddiad ein bod yn gallu tynnu sylw at ein cyflawniadau a'r heriau y bydd yr argyfyngau hinsawdd, natur a llygredd yn parhau i'w cyflwyno yn y dyfodol.
56. Parhaodd y ffocws ar reoli gwastraff ym mis Tachwedd wrth i ni weithio'n agos gyda chynhyrchwyr rhaglen *Y Byd ar Bedwar* i dynnu sylw at y gwaith pwysig rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â throeddau gwastraff. Roedd ein sesiynau briffio gyda'r rhaglen nid yn unig yn gyfle i tynnu sylw at ehangder y gwaith rydym yn ei wneud yn y maes hwn, ond hefyd yn caniatáu inni ddylanwadu ar wneuthurwyr y rhaglen yn eu negeseuon a rhannu negeseuon allweddol am oblygiadau troeddau gwastraff a'r rôl sydd gan y cyhoedd i'w chwarae i sicrhau eu bod yn gwybod ble bydd cyrchfan eu gwastraff.
57. Neilltuwyd swm sylweddol o adnoddau yn ystod y cyfnod hwn i gynllunio a pharatoi cyfathrebiadau ar gyfer rhanddeiliaid, cydweithwyr a'r cyhoedd cyn cyhoeddi'r dosbarthiadau dŵr ymdrochi. Roedd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol mewn ardaloedd lle mae dosbarthiadau naill ai wedi gostwng neu wedi gwella ar gyfathrebu ar y cyd i amlygu'r ymrwymiad ar y cyd i wella ansawdd ein dyfroedd.
58. Ym mis Rhagfyr, flwyddyn ar ôl yr adroddiadau cyntaf am broblemau arogleuon yn Safle Tirlenwi Withy hedge, buom yn arwain y gwaith o gynnal sesiwn galw heibio i'r cyhoedd ochr yn ochr â'n partneriaid, lechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Sir Penfro, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran rheoli materion ar y safle. Cynlluniwyd y sesiwn i roi tawelwch meddwl i gymunedau lleol ynghylch rheolaeth y safle yn y dyfodol a bod ymchwiliadau i achosion o dorri amodau trwyddedau yn parhau.
59. Cynhaliom ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn i dynnu sylw at ymweliadau parhaus â busnesau ar Ystad Ddiwydiannol Wreccsam, i gynnig cyngor ac i sicrhau bod mesurau atal llygredd ar waith i ddiogelu cyrsiau dŵr. Mae cyfres o bodlediadau sy'n canolbwyntio ar waith ein tîm amgylchedd yng Ngheredigion hefyd yn parhau, gan arddangos yr ystod eang o waith a wneir gan y tîm, gan gynnwys cadwraeth ac ymateb i ddiwyddiadau.

### **Mae Natur yn Gwella**

60. Roedd ymdrechion i adfer afonydd Cymru a chefnogi adferiad byd natur yn ffocws allweddol yn y cyfnod hwn. Tynnwyd sylw at waith parhaus ein Rhaglen Adfer Afonydd gan y Dirprwy Brif Weinidog yn ystod ymweliad â chynllun Nant Dowlais, a

bu cynlluniau i gefnogi mudo pysgod yn afon Wysg yn ffocws sesiwn galw heibio Prosiect Pedair Afon LIFE yn Aberhonddu. Tynnwyd sylw hefyd at effeithiau cronfa'r Rhaglen Cyfalaf Dŵr a gwaith partneriaeth llwyddiannus gyda thirfeddianwyr i adfer byd natur yn ystod y cyfnod hwn drwy hyrwyddo prosiect Cleddau Wen.

## Rhagolwg

Dydd Iau 30 Ionawr / Dydd Gwener 31 Ionawr – Cynhadledd Tystiolaeth

Dydd Iau 6 Chwefror – Pwyllgor Cyllid

Dydd Mawrth 11 Chwefror – Y Pwyllgor Ystad Tir

Dydd Mercher 12 Chwefror – Galwad gan y Bwrdd am Ddiweddariad

Dydd Iau 13 Chwefror – Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

Dydd Mercher 19 Chwefror – Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Dydd Mercher 5 Mawrth – Pwyllgor Cyllid

Dydd Mawrth 11 Mawrth – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Dydd Mercher 19 Mawrth / Dydd Iau 20 Mawrth – Cyfarfod Bwrdd Mis Mawrth

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	23 Ionawr 2025
<b>Teitl y Papur:</b>	Diweddariad ARAC i'r Bwrdd
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	25-01-B06
<b>Noddwyd y papur gan:</b>	Kath Palmer, Cadeirydd ARAC
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
<b>Cyflwynwyd y papur gan:</b>	Kath Palmer, Cadeirydd ARAC
<b>Pwrpas y papur</b>	Gwybodaeth
<b>Crynodeb</b>	Rhoi diweddariad i'r Bwrdd mewn perthynas â chyfarfod ARAC ar 13 Rhagfyr 2024.

## Cefndir

1. Mae'r diweddariad hwn i'r Bwrdd yn ymwneud â chyfarfod Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (ARAC) ar 13 Rhagfyr 2024. Gall aelodau'r Bwrdd weld holl bapurau a chofnodion y Pwyllgor drwy borth Diligent.

## Diweddariad

### Archwilio Cymru

2. Darparodd Archwilio Cymru ddiweddariad gan gynnwys yr archwiliadau arfaethedig yng nghynllun Archwilio Cymru 2023-26 a bod y gwaith Ardaloedd Draenio Mewnol wedi'i gwblhau. Roedd ARAC wedi gofyn i nodyn briffio a gweminar i'r Bwrdd ar Ardaloedd Draenio Mewnol gael eu trefnu.

### Rheoli Risg

3. Hysbyswyd ARAC y byddai'r tîm Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg, ac y byddai'r Bwrdd yn trafod y Gofrestr Risgiau a Sicrwydd Strategol (SRAR) yn eu cyfarfod ym mis Ionawr.

- Roedd y Diweddariad Rheoli Risg Chwarterol yn cynnwys ail-raddnodi'r archwiliadau dwfn o ran risg yn y Pwyllgorau a bod yr hyfforddiant risg diweddar wedi cael derbyniad da gan y staff. Awgrymwyd cynnwys sesiwn sganio'r gorwel/rheoli risg yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Craffodd ARAC ar y Gofrestr Risgiau a Sicrwydd Strategol a'r Log Risgiau a Materion Sefydliadol a'u trafod.

## Cynllun Gweithredu Llywodraethu

- Hysbyswyd ARAC am gyd-destun Gweithgor Llywodraethu'r Bwrdd, pwrpas y Grŵp, y Cynllun Gweithredu Llywodraethu a Risg a rôl ARAC yn ei reolaeth. Cyflwynwyd y fformat newydd ar gyfer agendâu Bwrdd mis Ionawr i ARAC a chytunwyd ar y rhain. Cytunodd ARAC hefyd i oruchwylio'r Cynllun Gweithredu Llywodraethu a Risg a Thraciwr Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru.

## Archwilio Mewnol

- Rhodddwyd Adroddiad Chwarterol yr Archwiliad Mewnol i ARAC a chymeradwywyd newidiadau i Gynllun Archwilio Mewnol 2024-25 gan gynnwys ychwanegu tri adolygiad a gohirio archwiliad tan 2025-26. Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Mewnol 2025+ i ARAC hefyd a thrafodwyd pwysau ar y sefydliad gyda'r archwiliadau arfaethedig a'r Achos dros Newid parhaus. Cafwyd trafodaeth ar yr angen am archwiliad o ddiwylliant a chytunwyd y dylai'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC) ystyried hyn gyda'r gyrwyr diwylliant.
- Derbyniwyd pedwar adroddiad Archwilio Mewnol, roedd tri yn rhoi barn gymedrol ac un yn rhoi barn sylweddol. Cyflwynwyd hefyd drosolwg o'r camau gweithredu Archwilio Mewnol a oedd yn hwyr, a chraffodd ARAC ar y rhain a'u trafod.
- Gohiriwyd dau archwiliad dilynol ar gynllunio'r gweithlu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid tan ddechrau 2026. Cytunwyd i gyfeirio pryderon a risgiau o ran adnoddau yn y meysydd hyn i'r Bwrdd.

## Diweddariad Cyllid

- Rhodddwyd yr Adroddiad Cyllid Chwarterol i ARAC a oedd yn cynnwys diweddariad ar Gyfrifon Blynyddol 2024-25, diweddariad IR35, diweddariad gwrth-dwyll a llywodraethu ariannol a'r colledion, taliadau arbennig a'r camau gweithredu tendr sengl. Gofynnwyd am adroddiad gwersi a ddysgwyd ar IR35 a bydd yn cael ei ychwanegu at y blaengynllun gwaith.

## Canlyniadau a Risgiau'r Achos dros Newid

- Hysbyswyd ARAC ynglŷn â sut yr oedd risg wedi cael ei hystyried ac wedi cael ei chynnwys yn y broses hyd yn hyn a'r dull amlinellol arfaethedig o reoli risgiau yn dilyn yr Achos dros newid. Byddai'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC) yn cael diweddariadau rheolaidd a byddai'r Bwrdd hefyd yn cael ei ddiweddarau ynglŷn â

risgiau'r Achos dros Newid pan fyddai'r Gofrestr Risgiau a Sicrwydd Strategol yn cael ei hadolygu.

## **Diweddariad Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau**

11. Rhoddwyd diweddariad i ARAC ar waith y Gwasanaethau Cymorth Rheoli Contractau (CMSS). Cafwyd trafodaeth am y diwylliant gyda rheolwyr contractau a byddai'r tîm CMSS yn parhau i weithio gyda'r sefydliad i wella a symleiddio prosesau.

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	23 Ionawr 2025
<b>Teitl y Papur:</b>	Diweddariad Bwrdd y Pwyllgor Cyllid
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	25-01-B07
<b>Noddwyd y papur gan:</b>	Helen Pittaway, Aelod o'r Bwrdd
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
<b>Cyflwynwyd y papur gan:</b>	Helen Pittaway, Aelod o'r Bwrdd
<b>Pwrpas y papur</b>	Gwybodaeth
<b>Crynodeb</b>	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cyllid – 5 Rhagfyr 2024

## Cefndir

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 5 Rhagfyr 2024. Gall cofnodion y cyfarfodydd hyn fod ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.

### Diweddariad Perfformiad Ariannol

- Cyflwynwyd y risgiau, y cyfleoedd, a'r newidynnau a allai effeithio ar berfformiad ariannol CNC yn 2024-25 ynghyd â'r cynnydd yn erbyn y targed arbedion yn yr Achos dros Newid.
- Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid am wybodaeth am oblygiadau ariannol storm Bert. Cadarnhawyd bod CNC wedi gwneud cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Leol yn y gorffennol i gefnogi adferiad digwyddiadau eithafol. Cymerwyd cam gweithredu i ddarparu rhagor o wybodaeth am yr effeithiau unwaith yr ymgynghorwyd â chydweithwyr Llifogydd.
- Yn dilyn trafodaeth ar danwariant mewn adnoddau dŵr, eglurwyd y cyfiawnhad dros y cynnydd mewn hyblygrwydd taliadau dŵr. Awgrymodd y Pwyllgor Cyllid y dylai CNC geisio gwario incwm taliadau ar yr ardal arfaethedig a nodi'n glir os na ellir ei ddefnyddio yn yr ardal honno cyn ei ddefnyddio yn rhywle arall.

### Cynigion Ariannol



4. Cymeradwyodd y Pwyllgor gynnig cyllid grant tair blynedd ar gyfer y Rhaglen Grant Gweithredu ar Fawndiroedd Cenedlaethol a oedd yn fenter strategol i adfer mawndiroedd ac yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant CNC.
5. Holodd y Pwyllgor Cyllid a fyddai'r Achos dros Newid yn effeithio ar y Rhaglen a thrafododd fawndir o ran cyllid gwyrdd, oherwydd gallai sicrhau gwell ffordd o ddal carbon na phlannu coed. Croesawyd dull cyfannol y Rhaglen Mawndiroedd ehangach gan y Pwyllgor a awgrymodd y gallai astudiaeth achos mawndir, fel rhan o archwiliad dwfn Amcan Llesiant Gwrthsefyll Newid Hinsawdd, fod yn fuddiol.
6. Diweddariadau ar Wasanaeth Llongau Morol: Darparwyd Gweithred Dendr Sengl a Chytundeb Gwasanaeth Microsoft. Byddai papur ar y Gwasanaeth Llongau Morol yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf a nodwyd y cynnydd yn y Cytundeb Gwasanaeth Microsoft, yn sgil cyflwyno'r Cytundeb Partneriaeth Strategol.

#### Diweddariad Cyllideb a Chynllunio Busnes 2025-26

7. Amlinellwyd amserlen cyllideb 2025-26, y rhagolygon a'r rhagdybiaethau allweddol ar gyfer yr holl ffynonellau ariannu ynghyd â'r rhagdybiaethau allweddol, y cyd-destun ariannol, fforddiadwyedd refeniw ar gyfer 2025-26 a'r pwysau ariannol posibl.
8. Trafododd y Pwyllgor Cyllid y gyllideb bren a mynegodd bryderon pe bai tanwariant ar y gyllideb Stiwardiaeth Tir, y gallai hynny effeithio ar flynyddoedd dilynol.

#### Diweddariad CNC2030

9. Darparwyd diweddariad ar CNC2030 gan gynnwys cofrestru rhwystredigaeth yn y tîm gyda chyflwyno'r Rhaglen. Roedd hyn oherwydd recriwtio rolau cyflwyno prosiectau allweddol. Darparwyd hefyd ddiweddariad ar y tîm swyddogaeth Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT) newydd a diweddariad ar wasanaeth trwyddedu Marine Alfa a fyddai'n gwella'r rhyngwyneb cwsmeriaid ac yn sylfaen i'r platfform cwsmeriaid.
10. Trafododd y Pwyllgor y sefydlogrwydd sefydliadol yr oedd y Rhaglen yn ei ddarparu gan gynnwys seiberddiogelwch a'r uchelgais i symud ymlaen tuag at drawsnewid. Fodd bynnag, cydnabuwyd mai dim ond gyda chyllid priodol ar gyfer y Rhaglen y gellid cyflawni hyn. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r Bwrdd drafod y Rhaglen.
11. Yn dilyn cais, darparwyd rhagor o wybodaeth am y tîm DDaT newydd.

#### Diweddariad ar Strategaeth Ymadael Tŷ Cambria

12. Cafwyd diweddariad llafar byr gan y Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Busnes ac Adfywio ar ymadael â Thŷ Cambria gan gynnwys amlinellu'r opsiynau posibl a fyddai'n cael eu cyflwyno mewn papur i'r Bwrdd.

## Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	23 Ionawr 2025
Teitl y Papur:	Diweddariad Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC)
Cyfeirnod y Papur:	25-01-B08
Noddwyd y papur gan:	Mark McKenna, Cadeirydd PCC
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Mark McKenna, Cadeirydd PCC
Pwrpas y papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi diweddariad i'r Bwrdd mewn perthynas â chyfarfod PCC ar 10 Rhagfyr 2024.

## Cefndir

- Mae'r diweddariad hwn ar gyfer y Bwrdd mewn perthynas â chyfarfod rhithwir Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC) ar 10 Rhagfyr. Gall aelodau'r Bwrdd weld holl bapurau a chofnodion y Pwyllgor drwy borth Diligent.
- Nododd a gwerthfawrogodd y Pwyllgor waith caled a gwytnwch yr holl staff a helpodd i ymateb i'r digwyddiadau storm diweddar.

## Diweddariad llafar ar Risgiau a Materion Cyfredol

- Rhoddwyd diweddariadau llafar i'r PCC ar y risgiau a'r problemau presennol. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol - Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol diweddariad i'r PCC ar ddefnyddio gwahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, plattform cwsmeriaid newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a'r cyfleoedd o fewn y sefydliad i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd a chynorthwyo arloesedd. Tynnwyd sylw at greu gwasanaeth Data, Digidol a Thechnoleg (DDaT).
- Roedd aelodau'r Bwrdd wedi cael eu hannog i fynychu sesiynau hyfforddi staff.

5. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu ddiweddariad i PCC ar eitemau cysylltiedig â Rheoli Pobl a recriwtio a'r heriau sy'n cael eu hwynebu.
6. Byddai symleiddio prosesau yn helpu staff i gyflawni disgwyliadau allanol ac roedd trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru (LIC) ar feysydd blaenoriaeth.

## Risgiau Strategol

7. Aeth PCC ati i groesawu a thrafod yn fanwl y tair Risg Strategol sy'n berthnasol i gylch gwaith PCC.
8. Esboniwyd y rheolaethau cyfredol a'r camau gweithredu a gynlluniwyd a heriodd PCC y sgôr risg a'r amserlen a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwersi a ddysgwyd a rhyngweithio ag addysg uwch. Amlinellwyd y blaenoriaethau a'r heriau ac roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith a deall y byddai gwelliannau parhaus. Deallwyd y byddai lefel o risg bob amser yn gysylltiedig oherwydd natur y busnes. Roedd y canllawiau a chyflwyniad y risgiau wedi cael eu croesawu.

## Strategaeth Pobl

9. Cyflwynwyd y cynnydd i PCC yn erbyn cyflawni'r Strategaeth Pobl bresennol. Byddai'r Strategaeth newydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol gan ystyried yr adborth i arolwg Ein Llais. Roedd angen diffinio llwyddiant y canlyniadau, fel y cawsant eu hamlinellu yn y Strategaeth, ac awgrymodd PCC fod dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hymgorffori i fesur llwyddiant; Darparodd PCC hefyd awgrymiadau ar arfer gorau.

## Eitemau Gwybodaeth

10. Croesawodd PCC yr Wybodaeth Rheoli Pobl, gan ofyn am wybodaeth am berfformiad gan y System Rheoli Dysgu. Llongyfarchwyd y tîm ar yr Archwiliad Mewnol Adolygu Digwyddiadau Difrifol, a oedd wedi derbyn barn sylweddol.

## Edrych i'r dyfodol ac Unrhyw Fater Arall

11. Trafodwyd eitemau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.
12. Cymeradwyodd PCC y diwygiadau arfaethedig a awgrymwyd gan Reolwr Gweinyddu Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) a chymeradwyodd Bolisi Dewisol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'i ddiweddarau.

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	23 Ionawr 2025	
<b>Teitl y Papur:</b>	Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF).	
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	25-01-B09	
<b>Noddwyd y papur gan:</b>	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd WLMF	
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Bronwen Martin, Cynghorydd Arbenigol: Amaethyddiaeth	
<b>Cyflwynwyd y papur gan:</b>	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd WLMF	
<b>Pwrpas y papur</b>	Gwybodaeth	
<b>Proses gymeradwyo / ymgynghori:</b>	<b>Cyfrifol:</b> Pwy sydd wedi datblygu'r papur/proses a phwy sydd wedi cael rhoi mewnbwn?	
	<b>Atebol:</b> Pwy sy'n atebol am gymeradwyo yn y pen draw? I bwy y gofynnir am gymeradwyaeth?	
	<b>Ymgynghorwyd â:</b> A phwy yr ymgynghorwyd hyd yn hyn? Pan fo angen cymeradwyaeth, a yw hyn wedi'i drefnu? A fydd angen ymgynghori pellach?	
	<b>Hysbyswyd:</b> Pwy sydd wedi cael gwybod neu sydd angen mwy o wybodaeth am y gwaith?	
<b>Crynodeb</b>	Crynowch pa ystyriaethau, penderfyniadau, a chamau gweithredu yr ydych yn eu ceisio gan y pwyllgor.	

## Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

- Cynhelir cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) bedair gwaith y flwyddyn, ac maent yn rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau eraill sy'n aelodau o WLMF rannu gwybodaeth, nodi buddiannau cyffredin a chydweithio mewn ffordd gydweithredol ar faterion rheoli tir strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Fforwm Rheoli Tir Cymru \(WLMF\)](#)

## Diweddariad

### Cyfarfod 9 Rhagfyr 2024

- Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf WLMF ddydd Llun 9 Rhagfyr 2024. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar goedwigaeth ac yn cynnwys y cyflwyniadau/trafodaethau canlynol:
  - Coedwig Genedlaethol Cymru (Stacey Delbridge, CNC)
  - Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Coedwigaeth (Naomi Matthiessen, Llywodraeth Cymru)
  - Strategaeth y Diwydiant Pren a'r Cynllun Sgiliau Cysylltiedig (Gail Merriman ac Ann Burgoyne, Llywodraeth Cymru)
  - Rheoli Ceirw a Gwiwerod (Chris Tucker, CNC)
  - 'Astudiaeth achos o greu coetir' (Iwan Parry, Tilhill)
  - 'Sut mae'r sector coedwigaeth breifat yn gweithio ochr yn ochr â CNC' (Iwan Lloyd Williams, Confor)
- Cynhelir cyfarfod nesaf WLMF ym mis Mawrth 2025 (dyddiad i'w gadarnhau).
- Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan yr aelodau, cânt eu cyhoeddi ar dudalen WLMF ar wefan CNC.

## Is-grŵp WLMF ar Lygredd Amaethyddol

- Prif ddiben Is-grŵp WLMF yw nodi cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru ar yr un pryd â chynnal sector ffermio ffyniannus gan ddilyn pum thema allweddol (cyngor ac arweiniad, ymagwedd wirfoddol, rheoleiddio, arloesi a buddsoddi), a gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru \(WLMF\) ar Lygredd Amaethyddol](#)

## Diweddariad

### Cyfarfod 18 Tachwedd 2024

6. Roedd cyfarfod Is-grŵp WLMF a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2024 yn canolbwyntio'n llwyr ar Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Adolygiad 4 blynedd. Rhoddodd y Cadeirydd Annibynnol, Dr Susannah Bolton, ddiweddariad ar yr adolygiad a chyfle i'r grŵp ymwneud â'r broses drwy holi cyfres o gwestiynau iddynt eu hystyried a'u trafod.

### **Cyfarfod 16 Rhagfyr 2024**

7. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf ddydd Llun 16 Rhagfyr 2024. Roedd y cyfarfod hwn yn cynnwys yr eitemau canlynol:
  - Trafodaeth cyn cyflwyniad am yr offeryn GIS Dosrannu Ffynonellau (SAGIS). Ymunodd Dean Roden, CNC, â'r cyfarfod i ddeall beth mae'r grŵp ei eisiau o gyflwyniad yn y dyfodol ynghylch modelu SAGIS.
  - Cyflwyniad ar Brosiect Adfer Dalgylch Gwy Uchaf (Nick Young, CNC).
  - Diweddariad ar Ffactorau Allyriadau Dofednod Dwys (Alison Soper, CNC).
  - Diweddariad ar broses yr adolygiad 4 blynedd o'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (Dr Susannah Bolton, Cadeirydd Annibynnol).
8. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-grŵp WLMF ym mis Ionawr 2025 (dyddiad i'w gadarnhau).
9. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan yr aelodau, cânt eu cyhoeddi ar dudalen Is-grŵp WLMF ar wefan CNC.

## Papur BwrddCNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	23 Ionawr 2025
<b>Teitl y Papur:</b>	Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WWF) Tachwedd 2024
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	25-01-B10
<b>Noddwyd y papur gan:</b>	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd WFF
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Ben Wilson, Prif Gyngorydd Pysgodfeydd; Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol
<b>Cyflwynwyd y papur gan:</b>	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd WFF
<b>Pwrpas y papur</b>	Gwybodaeth

### Cefndir

- Mae Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WWF) yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac yn rhoi cyfle i randdeiliaid pysgodfeydd a Sefydliadau Anllywodraethol rannu tystiolaeth a chyfleoedd er mwyn cydweithio i gyflawni rheolaeth gynaliadwy o bysgodfeydd yng Nghymru.
- Cylch gorchwyl y grŵp yw:
  - Cynrychioli'r ystod o randdeiliaid sydd â buddiant yn adnoddau pysgodfeydd dŵr croyw ac ymfudol Cymru a gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac eraill i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd mudol a dŵr croyw yng Nghymru.
  - Darparu cyngor strategol i CNC, sy'n adlewyrchu barn buddiannau pysgodfeydd. Llywio cyngor CNC i Lywodraeth Cymru (LIC), gan gynnwys datblygu polisi a strategaeth sy'n ymwneud â physgodfeydd.
  - Adolygu perfformiad pysgodfeydd CNC a gwaith cysylltiedig i sicrhau bod genweirwyr a buddiannau pysgodfeydd yn deall yn glir bod incwm trwyddedau pysgota â gwialen a chyllid arall yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni dyletswydd pysgodfeydd statudol CNC.
  - Ystyried effaith ecolegol, biolegol ac economaidd materion newydd a materion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ein pysgodfeydd.

- e. Helpu i ledaenu gwybodaeth gan CNC a mannau eraill i fuddiannau pysgota a physgodfeydd.
- f. Darparu adborth clir gan fuddiannau genweirio a physgodfeydd i CNC a hwyluso darparu gwybodaeth i'r buddiannau hynny.
- g. Nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chyllid newydd.
- h. Cefnogi'r gwaith o sganio'r gorwel ar gyfer datblygiadau a chyfleoedd newydd, a risgiau a ragwelir, a chodi ymwybyddiaeth o faterion ehangach yn ymwneud â rheoli pysgodfeydd dŵr croyw ac ymfudol, er enghraifft pysgodfeydd morol.

## Diweddariad

- 3. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn rhithiol ar 28 Tachwedd 2024
- 4. Roedd hwn yn gyfarfod byrrach na'r arfer ac roedd yn canolbwyntio ar dderbyn diweddariadau gan aelodau'r fforwm.
- 5. Roedd y Cyfarfod yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:
  - a. Guy Mawle - Dalfeydd â gwialen Eogiaid ar Afon Wysg yn 2024 a statws y bysgodfa. Roedd dalfeydd â gwialen cynddrwg â rhai 2022 a 2023, y gwaethaf a gofnodwyd erioed. Rhagwelir y bydd y ddalfa pysgota â gwialen ddatganedig ar gyfer yr afon gyfan yn 2024, pan fydd ar gael y flwyddyn nesaf o ffurflenni cofnodi dalfeydd trwyddedau pysgota â gwialen, rhwng 41 ac 82 o eogiaid. Rhagdybiodd Guy nad yw'n glir am ba mor hir y bydd gan afon Wysg boblogaeth hyfyw o eogiaid a heb welliannau mawr i oroesiad eogiaid yn yr afon ac yn y môr, mae'n ymddangos y bydd adferiad yn annhebygol.
  - b. Gail Davis-Walsh - Gwaith wedi'i gwblhau yn 2023/24 ac yn cael ei symud ymlaen yn 24/25 gan Afonydd Cymru ac Ymddiriedolaethau Afonydd Cymru.





			Rhymni, Ogwr, Taf
Adfer Cynefin (ffensio, plannu coed, adfer gorlifdir)	55	Dyfrdwy, Wysg, Gwy, Teifi, Tywi, Clwyd, Seiont, Ogwr, Rhymni, Elai	

- c. Diweddariad llafar gan Ben Wilson ar fentrau pysgodfeydd CNC gan gynnwys
- i. Cynnydd ar Strategaeth Pysgodfeydd sy'n gwrthsefyll yr Hinsawdd CNC
  - ii. Stociau eogiaid a brithyllod môr cyhoeddedig ar gyfer 2023
  - iii. Diweddariadau cyflawni prosiectau pysgodfeydd CNC
